

Rwtsipwts-Ysgol Edmwnd Prys

Ar ôl trafodaeth staff, penderfynwyd gofyn i'r plant am eu syniadau – ac yn y pen draw, bu consensws fod angen i'r plant feddwl mwy am eiriau Cymraeg/Saesneg ynghyd â phroblemau megis 'bag fi / mam fi', 'sgenna i', 'pam dwi'n mynd', 'dydio ddim yn cau mynd on', 'mae fi ddim' a.y.y.b. Mae rhain yn cael sylw yn y dosbarthiadau gan mwyaf er ein bod yn ceisio canolbwyntio ar un drwy'r ysgol bob yn awr ac yn y man. I helpu hefo'r defnydd o eiriau Saesneg wrth siarad Cymraeg, crewyd nifer o 'reolau' – mae rhai o'r isod wedi datblygu wrth i ni gael profiad ac adnabod anghenion.

1. Defnyddio gair arbennig i dynnu sylw at gamddefnydd o air – pleidleiswyd ar nifer o eiriau a dewis 'rwtsipwts'.
2. Roedd angen i BAWB ei ddefnyddio (plant, athrawon, cymorthyddion, staff y gegin, gofawlraig a.y.y.b.) mewn modd cwrtais a heb fod yn ddilornus – plant wrth blant, oedolion wrth blant a phlant wrth oedolion.
3. Rhaid i BAWB dderbyn y cywiro.
4. Nid oes gennych hawl i'w ddweud onibai eich bod yn gwybod y gair 'cywir' e.e. 'beaver' / afanc.
5. Os nad ydych yn gwybod y gair Cymraeg ond yn ymwybodol o hynny, cewch ddweud nad ydych yn cofio'r gair a chael plant eraill i helpu.

Byddwn hefyd yn 'cyfieithu' brawddeg weithiau e.e. 'Dwi'n watchad television' i 'I am gwylio teledu' / 'Tuesday oedd hi' i 'It was dydd Mawrth'. Mae'r plant yn gweld hyn yn ddoniol, ond mae'n gwneud iddynt **feddwl** a sylweddoli. Mae'r drefn yn weithredol ers tua 15 mlynedd yma bellach ac yn parhau i fod yn effeithiol - bydd rhieni newydd yn dod i ddweud wrthym fod eu plant yn ei ddefnyddio gartref hefyd e.e. nid ydynt yn cael dweud 'toys', 'television', 'computer' a.y.y.b.